# Is-grŵp Cydnerthedd Morol WMAAG

Prif Negeseuon a Chamau i'w Cymryd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Is-grŵp Cydnerthedd Morol WMAAG | | | **Dyddiad** | 13.11.2019 |
| **Rhif y Cyfarfod** | 1 | **Amser Dechrau** | 10:30 | **Amser Gorffen** | 15:30 |
| **Yn bresennol** | Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru – cyd-gadeirydd), Wendy Dodds (Llywodraeth Cymru), James Millington (Llywodraeth Cymru), Mark Bloomfield (Llywodraeth Cymru), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru CNC – cyd-gadeirydd), Mary Lewis (CNC), Dan Crook (CNC), Maggie Hatton Ellis (CNC), Nick O'Sullivan (WMFAG), Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Dr Andrew Lucas (JNCC), Gill Bell (Cymdeithas Cadwraeth y Môr), Phil Hollington (Cragen Llŷn a Môn), Tabea Wilkes (RSPB Cymru), Clive Pearce (Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru). | | | | |
| **Ymddiheu-riadau** | Chris Jenkins (Llywodraeth Cymru), Nick Barcock (Dwr Cymru), Rachel Sharp (Ymddiriedolaethau Natur Cymru), Jonathan Monk (Porthladd Aberdaugleddau). | | | | |

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

| Prif Negeseuon | Camau i'w Cymryd |
|---|---|
| Estynnodd Gareth Bevington ei groeso fel cyd-gadeirydd i'r aelodau i gyfarfod cyntaf yr is-grŵp. Nododd fod Llywodraeth Cymru ac CNC wedi gweld bod angen creu fforwm yn benodol lle gall rhanddeiliaid y môr weithio gyda'i gilydd a thrafod materion polisi sy'n effeithio ar gydnerthedd ecosystemau'r môr. Cafodd yr is-grŵp hwn ei greu at y pwrpas hwnnw. Mynegodd ei gefnogaeth i'r grŵp gan ddiolch i'r aelodau ymlaen llaw am eu cyfraniad.<br><br>Datganodd Rhian Jardine ymrwymiad CNC i'r grŵp ac i gydweithio ag aelodau ar y pynciau sy'n gysylltiedig â chydnerthedd y môr y bydd y grŵp yn debygol o'u trafod dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. | Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r cylch gorchwyl ar wefan Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| Bu'r aelodau'n trafod yr angen i'r grŵp gynnal cyfarfodydd ffocws yn unig, hynny pan fydd eitemau ar yr agenda yn golygu bod angen galw cyfarfod.<br><br>Cytunodd y grŵp i fabwysiadu cylch gorchwyl yr is-grŵp.<br><br>Ymddiheurodd Llywodraeth Cymru i'r ddau oedd am gymryd rhan dros y ffôn am eu bod wedi gorfod gadael oherwydd diffyg cysylltiad awdio. | <br><br><br><br><br>Cytunodd Llywodraeth Cymru i gysylltu â'r ddau aelod oedd wedi ceisio cymryd rhan yn y cyfarfod o bell ar ôl y cyfarfod.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru ac CNC yn darparu Skype yn y dyfodol er mwyn i aelodau allu cymryd rhan o bell. |

Eitem 2: Rheoli Rhwydwaith yr AMGau - Datblygu'r Cynllun Nesaf

| Prif Negeseuon | Camau |
|---|---|
| Cafwyd cyflwyniad ar rôl ac aelodaeth Grŵp Llywio Rheoli AMGau, pwrpas Fframwaith Rheoli Rhwydwaith AMGau a chynhyrchu'r Cynllun Blynyddol a'r cylch adolygu cysylltiedig.<br><br>Edrychwyd ar sut mae'r Grŵp Llywio'n blaenoriaethu'r camau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Dangoswyd esiampl o gam gafodd ei ychwanegu at y Cynllun Gweithredu, gydag esboniad sut y cafodd ei sgorio ar sail y 5 amod sgorio (pwysig: fe welwch yr amodau a'r egwyddorion rheoli yn y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu presennol).<br><br>Yna rhannwyd y rhanddeiliaid yn ddau grŵp, gan roi esiampl o weithred ddychmygol iddynt ei thrafod, drafft newydd o'r canllaw blaenoriaethu a'r amodau sgorio. Gofynnwyd iddynt sgorio'r weithred yn eu grwpiau a phenderfynu a ddylid ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Gofynnwyd i'r aelodau am eu barn am y canllaw a'r broses sgorio.<br><br>Trafododd y Grŵp Llywio yr amserlen a'r camau nesaf ar gyfer datblygu'r Cynllun Gweithredu nesaf, gan gynnwys rôl yr is-grŵp, a chytunwyd ar hynny. Cytunodd yr aelodau i gwrdd unwaith eto ddiwedd mis Chwefror i glywed y diweddaraf am ganlyniadau crynhoi a sgorio'r Alwad am Weithredoedd. | Bydd Llywodraeth Cymru ac CNC yn cynnull yr is-grŵp ddiwedd mis Chwefror 2020. |

| | |
|---|---|
| Yna agorwyd yr Alwad tri mis am Weithredoedd ar gyfer Cynllun Rheoli'r Rhwydwaith AMGau 2020-2021. Bydd yn cau ar 17 Ionawr 2020. Dywedwyd y dylid lledaenu'r Alwad yn eang. | Llywodraeth Cymru i ledaenu'r Alwad am Weithredoedd, y canllaw a'r templed ar gyfer cyflwyno gweithredoedd, ymhlith rhestr cysylltiadau WMAAG ac eraill. |

Eitem 3: SoNaRR 2

Gweithgareddau

Esboniwyd y newidiadau sy'n cael eu gwneud i SoNaRR 2 i wneud yr adroddiad yn haws ei ddeall ac i ddarparu'r data mewn fformat mwy hylaw i ddefnyddwyr. Cafwyd trafodaeth hefyd am adroddiad interim SoNaRR fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019.

Cynhaliwyd sesiynau rhyngweithiol â'r rhanddeiliaid a wahoddwyd i ddechrau'r drafodaeth am ddau brif faes yr adroddiad

1. **Cyflwr ecosystemau a'r tueddiadau**
2. **Gwasanaethau llesiant ecosystemau**

Caiff ymgynghoriad ar y pynciau hyn eu hanfon at fwy o randdeiliaid maes o law ac ystyrir eu hymateb wrth ddrafftio'r adroddiad terfynol.

| Prif Negeseuon | Camau i'w Cymryd |
|---|---|
| Yn ôl Deddf yr Amgylchedd, rhaid i CNC gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) bob pum mlynedd (yn dilyn yr ail adroddiad ym mis Rhagfyr 2020) yn y flwyddyn cyn etholiadau'r Cynulliad. Dyma'r dystiolaeth bwysicaf y mae CNC yn ei chynhyrchu.<br><br>Ei ganlyniad mwyaf yw ei ddylanwad ar Bolisi Adnoddau Naturiol (NRP) Llywodraeth Cymru. Mae'n asesu'n hadnoddau naturiol, cyflwr ein hadnoddau naturiol a'r graddau yr ydym yn rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR). Mae'n cyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer cynhyrchu Datganiadau Ardal ac yn llywio'n gwaith i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhopeth a wnawn. Bu'r SoNaRR cyntaf yn ddylanwad trwm ar NRP 2017. Edrychai ar gyflwr adnoddau ac ecosystemau | CNC i ofyn i randdeiliaid am gyflwr ecosystemau a'u tueddiadau er mwyn eu cynnwys yn SoNaRR 2. |

| | |
|---|---|
| Cymru, y pwysau oedd arnynt, y bygythiadau iddynt a thueddiadau posibl y dyfodol. Gwnaethon ni hefyd asesu cydnerthedd ein hecosystemau a'u cyfraniad at ein lles. Arweiniodd hynny at negeseuon allweddol am bob cynefin bras a chyfres o flaenoriaethau bras. | |